

Gallwch ychwanegu'ch targedau o'ch aseiniad diwethaf (Ond yn berthnasol os yr ydych wedi cwblhau aseiniad) / Please add your targets from the previous assignment (Only relevant if you have completed an assignment)

|                    |                                                                                          |                                                                                                                                                  |
|--------------------|------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                    | Targed/target                                                                            | Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn<br>What I have done in this assignment...                                                          |
| Targed/Target<br>1 | Cyfeirnodu yn gywir o fewn y testun. Edrych ar y sylwadau marcio ar dop tudalennau 2 a 3 | Rwyf wedi siarad a defnyddio brawddegau sydd yn cynnwys llenyddiaeth ac wedi ei gosod nhw mewn y ffordd gywir.                                   |
| Targed/Target<br>2 | Os yn anelu at raddau uwch, sicrhau cysylltiadau rhwng gwahanol ffynonellau.             | Rwyf wedi gwneud yn siwr fod llawer o wahanol ffynonellau i gysylltu'r gwaith ymchwil ac er mwyn gweld llawer o safbwyntiau academaidd amrywiol. |
| Targed/Target<br>3 |                                                                                          |                                                                                                                                                  |

**ECAD7005C Rhan B****Cyflwyniad**

Mae'r traethawd hwn yn archwilio rôl yr ardal dysgu allanol mewn datblygiad ysgol, gan ganolbwyntio ar sut y gellir ei datblygu'n effeithiol i wella profiadau dysgu disgyblion. Nod y cynllun datblygu yw meithrin amgylchedd dysgu sy'n cefnogi sgiliau cymdeithasol, corfforol ac emosiynol, tra hefyd yn gwella cyrhaeddiad academiaidd. Yn unol â chanllawiau BERA (2024), bydd y dull ymchwil yn ystyried ystyriaethau moesegol ac yn osgoi nodi unrhyw fanylion sy'n adnabod yr ysgol dan sylw.

Er mwyn darparu dadansoddiad trylwyr, bydd y traethawd yn cynnwys sawl adran allweddol. Yn gyntaf, bydd yr adolygiad llenyddiaeth yn asesu tystiolaeth ymchwil bresennol ynghylch manteision dysgu awyr agored a'i effaith ar ddatblygiad plant. Yna, bydd y cynllun gweithredu yn manylu ar strategaethau ar gyfer gwella a defnyddio'r ardal allanol yn effeithiol. Mae'r adran adfyfrio a gwerthuso yn cynnig dadansoddiad o'r broses weithredu a'r adborth a gasglwyd, gan ystyried unrhyw heriau neu gyfleoedd a gododd. Yn olaf, bydd y casgliad yn crynhoi'r prif ganfyddiadau ac yn cynnig awgrymiadau ar gyfer datblygiadau pellach.

Trwy gydol y dadansoddiad hwn, nod y traethawd yw dangos sut y gall dysgu yn yr awyr agored gyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad holistaidd disgyblion, gan wella eu hymwneud â'r broses ddysgu a chryfhau cysylltiadau â'r cwricwlwm.

**Adolygiad o'r Llenyddiaeth**

Mae datblygu ysgolion yn broses barhaus sy'n anelu at wella profiadau dysgu, safonau addysgol a lles disgyblion. Yn ôl Hopkins (2001), mae hyn yn cynnwys camau cynllunio, gweithredu, monitro ac adolygu i sicrhau newid cadarnhaol a pharhaol. Mae ymchwil yn dangos bod datblygiad ysgolion yn fwy effeithiol pan fo gweledigaeth glir, arweinyddiaeth gadarn a phenderfyniadau sy'n cael eu llywio gan dystiolaeth (Fullan, 2016). Yn y cyd-destun Cymreig, mae Llywodraeth Cymru (2020) wedi sefydlu fframwaith i gefnogi ysgolion wrth wella, gan ganolbwyntio ar bedwar maes sef arweinyddiaeth, ansawdd addysgu a dysgu, cynhwysiant a lles, a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â modelau damcaniaethol megis gwaith Hopkins (2001), sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd arweinyddiaeth effeithiol a strategaethau clir i sicrhau newid parhaol. Yn ogystal, mae Wiliam (2011) yn pwysleisio bod gwella ysgolion yn fwy llwyddiannus pan fo diwylliant o hunan arfarnu a dysgu proffesiynol parhaus yn cael ei feithrin. Un elfen allweddol yn hyn o beth yw'r modd y defnyddir amgylcheddau dysgu, gan gynnwys ardaloedd awyr agored. Mae ymchwil Waite (2017) yn dangos bod ardaloedd dysgu allanol yn gallu cynyddu ymgysylltiad disgyblion, meithrin sgiliau cymdeithasol, a hyrwyddo lles meddyliol. Mae hyn yn gydnaws â'r Cwricwlwm i Gymru (2022), sy'n annog dull trawsgwricwlaidd ac yn rhoi pwyslais ar ddysgu mewn cyd-destunau ystyrion.

Mae adroddiadau gan Estyn (2021) yn dangos bod ysgolion sy'n rhoi blaenoriaeth i wella'r amgylchedd dysgu – yn enwedig trwy fanteisio ar le awyr agored – yn profi cynnydd yn ymgysylltiad, creadigrwydd a hyder disgyblion. Yn ogystal, mae ysgolion sy'n gweithio yn unol â fframwaith gwella Llywodraeth Cymru yn gweld buddion pendant i gyrhaeddiad academiaidd a lles myfyrwyr (Estyn, 2021).

O ystyried hyn, mae'n amlwg bod cydweddu strategaethau datblygu ysgol ag egwyddorion fframwaith polisi Cymru yn allweddol i sicrhau newid cadarnhaol a pharhaol. Drwy sicrhau arweinyddiaeth effeithiol a hyrwyddo dulliau addysgu blaengar, gall ysgolion ddefnyddio ardaloedd dysgu awyr agored fel modd o wella safonau dysgu a lles disgyblion. Bydd y traethawd hwn yn archwilio'r dulliau sydd ar gael i ysgolion i ddatblygu gofodau dysgu allanol yn unol â'r egwyddorion hyn, gan ystyried sut y gall hyn gyfrannu at wella profiadau addysgol ac iechyd meddwl disgyblion.

Mae'r defnydd o ardaloedd dysgu allanol mewn ysgolion wedi bod yn faes ymchwil sy'n tyfu dros y blynyddoedd diwethaf, gyda nifer o astudiaethau'n dangos ei fanteision ar ddatblygiad plant mewn addysg. Mae dysgu awyr agored yn cyfeirio at weithgareddau sy'n cael eu cynnal y tu allan i'r dosbarth traddodiadol, gan gynnwys mannau naturiol, iardiau chwarae, a gofodau wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer dysgu ymarferol. Yn ôl Knight (2013), gall dysgu awyr agored wella profiadau addysgol drwy annog plant i ymgysylltu â'r amgylchedd naturiol, gan hybu eu chwilfrydedd a'u dealltwriaeth o gysyniadau academiaidd mewn ffordd fwy rhyngweithiol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru (2022) yn annog ysgolion i fanteisio ar yr amgylchedd awyr

agored fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru, gan gydnabod ei botensial i ddatblygu dysgu annibynnol a meddwl beirniadol.

Mae astudiaethau'n awgrymu bod dysgu awyr agored yn cynnig manteision amrywiol i ddisgyblion, gan gynnwys gwell ymgysylltiad a chymhelliant tuag at ddysgu. Yn ôl Rickinson et al. (2004), mae gweithgareddau dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn darparu profiadau dysgu mwy bywiog, sy'n helpu i atgyfnerthu gwybodaeth drwy brofiadau ymarferol. Mae ymchwil hefyd yn dangos bod dysgu awyr agored yn hybu creadigrwydd a sgiliau datrys problemau, wrth i ddisgyblion ddod ar draws sefyllfaoedd newydd sy'n eu hannog i feddwl yn annibynnol (Beames et al., 2012).

Yn ogystal â manteision academiaidd, mae dysgu yn yr awyr agored yn cael effaith gadarnhaol ar les meddyliol a chorfforol disgyblion. Mae astudiaethau fel rhai Fiennes et al. (2022) yn dangos bod amser a dreulir yn yr awyr agored yn gallu lleihau straen ac yn cynyddu hunan-barch. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn cyfnod pan mae iechyd meddwl disgyblion yn bryder cynyddol. Drwy ryngweithio â'r amgylchedd naturiol, gall disgyblion brofi teimlad o lonyddwch a chysylltiad â byd natur, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles cyffredinol (Mannion et al., 2013). Mae'r defnydd o ardaloedd dysgu allanol yn arbennig o bwysig mewn pynciau STEM, lle mae dealltwriaeth ymarferol o'r byd naturiol yn hanfodol (Waite et al., 2016).

Wrth ddadansoddi ymchwil gan Dyment a Bell (2008) mae'n awgrymu bod ysgolion sy'n buddsoddi mewn ardaloedd dysgu awyr agored yn gweld gwelliannau mewn perfformiad academiaidd, yn ogystal â datblygiad cymdeithasol a sgiliau cyfathrebu disgyblion. Gellir profiadau dysgu sy'n cynnwys cydweithio yn yr awyr agored yn rhoi cyfle i gryfhau sgiliau gwaith tîm, gan baratoi disgyblion ar gyfer cydweithredu mewn sefyllfaoedd gwahanol yn ei bywydau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlygu bod dysgu yn yr awyr agored yn gallu cryfhau sgiliau trawsgwricwlaidd, gan gysylltu ag egwyddorion allweddol megis annibyniaeth, creadigrwydd a chydweithio (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae hyn yn cyd-fynd ag ymchwil ryngwladol sy'n dangos bod dysgu y tu allan i'r dosbarth yn gallu cefnogi dysgu dwysach ac effeithiol. Yn ogystal, mae adroddiadau gan Estyn (2021) wedi dangos bod ysgolion yng Nghymru sy'n ymgorffori dulliau dysgu awyr agored yn eu harferion addysgu yn gweld cynnydd yn lefel ymgysylltiad disgyblion, yn ogystal â gwelliannau yn eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.

Mae adroddiad gan Estyn (2011) yn archwilio'r defnydd o ddysgu yn yr awyr agored i blant o dan bump oed yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r adroddiad yn nodi bod y rhan fwyaf o ysgolion a lleoliadau yn gwneud defnydd digonol o'r awyr agored i wella ac atgyfnerthu dysgu'r plant. Mae ymarferwyr mewn ysgolion yn fwy hyderus yn cynllunio ar gyfer dysgu yn yr awyr agored nag ymarferwyr mewn lleoliadau nas cynhelir, lle nad oes digon o le tu allan yn aml. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod plant yn elwa ar dreulio amser yn yr awyr agored, gan ddangos lefelau uchel o ymgysylltiad a mwynhad, yn ogystal â gwelliant yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd a'u datblygiad corfforol.

Er bod manteision amlwg i ddysgu yn yr awyr agored, mae nifer o rwystrau sy'n gallu atal ei weithredu'n llawn mewn ysgolion. Yn ôl Waite (2017), mae heriau megis diffyg adnoddau, prinder cyllid, a diffyg hyfforddiant athrawon yn gallu bod yn rhwystrau sylweddol. Mae rhai ysgolion hefyd yn wynebu cyfyngiadau logistaidd, megis diffyg mynediad at fannau awyr agored addas neu bryderon iechyd a diogelwch. mae astudiaethau'n awgrymu bod modd goresgyn y rhwystrau hyn drwy strategaethau clir megis datblygu partneriaethau â'r gymuned leol, darparu hyfforddiant i athrawon, a chynllunio gweithgareddau'n fanwl (Dyment & Bell, 2008). Mae dulliau arloesol megis dysgu seiliedig ar brosiectau ac integreiddio'r awyr agored yn rhan annatod o'r cwricwlwm yn gallu sicrhau bod ysgolion yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd a gynigir gan yr amgylchedd dysgu awyr agored.

### **Datblygu Pwynt Gweithredu**

Mae'r targed o gynyddu defnydd o'r ardal allanol yn chwarae rhan allweddol wrth lunio cynllun datblygu ysgol. Mae'n cynnig cyfleoedd dysgu ystyrlon sy'n gwella lles disgyblion, eu canlyniadau academaidd a'u datblygiad cymdeithasol. Trwy ystyried adborth arolygon, dadansoddi canlyniadau disgyblion ac asesu anghenion y dysgwyr, gellir siapio'r cynllun i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion pawb yn y gymuned ysgol.

Mae Ysgol A wedi canolbwyntio ar y targed hwn gan fod adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol wedi dangos bod defnydd cyfyngedig yn cael ei wneud o'r ardaloedd allanol ar hyn o bryd. Mae adborth gan ddisgyblion, rhieni ac athrawon wedi awgrymu bod gan yr ysgol botensial i wella'r profiad dysgu trwy ddefnyddio'r

amgylchedd naturiol yn fwy effeithiol. Yn ogystal, roedd data perfformiad yn dangos bod disgyblion yn elwa o ddysgu ymarferol, ac felly penderfynwyd bod angen mwy o gyfleoedd i ddysgu y tu allan i'r dosbarth.

Wrth edrych ar effaith adborth arolygu mae'n rhoi mewnwelediad gwerthfawr i farn disgyblion, athrawon a rhieni ynghylch defnydd yr ardal allanol yn Ysgol A. Os yw'r adborth yn awgrymu bod disgyblion yn cael mwy o foddhad wrth ddysgu yn yr awyr agored neu fod staff yn gweld gwelliannau mewn ymddygiad a chydweithio, gall hyn lywio penderfyniadau strategol. Gall arolygon hefyd nodi rhwystrau megis diffyg adnoddau neu seilwaith addas, gan ganiatáu i Ysgol A flaenoriaethu gwariant ac adnoddau.

Mae tystiolaeth o effaith dysgu yn yr awyr agored ar ganlyniadau disgyblion yn ffactor hanfodol wrth ddatblygu cynllun Ysgol A. Mae ymchwili yn dangos y gall dysgu yn yr awyr agored wella cof, sgiliau meddwl beirniadol a chreadigrwydd (Waite, 2011). Os yw dadansoddi data academiaidd yn dangos gwelliant mewn perfformiad disgyblion sydd wedi ymgysylltu â dysgu awyr agored, gall hyn gefnogi'r strategaeth i ehangu'r ddarpariaeth hon. Gall y cynllun gynnwys gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, megis mathemateg ymarferol mewn gardd ysgol neu wersi gwyddoniaeth sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol fel adnodd.

Mae cynllun Ysgol A yn ystyried anghenion y dysgwyr er mwyn sicrhau eu fod yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb. Mae Passy et al. (2019) yn nodi bod athrawon sy'n defnyddio dulliau dysgu awyr agored yn gweld gwell ymgysylltiad a chymhelliant ymhlith disgyblion, gan gyfrannu at welliannau mewn perfformiad academiaidd a datblygiad cymdeithasol. Mae Ysgol A yn adnabod disgyblion sydd angen mwy o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau cymdeithasol neu gorfforol, gall yr ardal allanol fod yn fodd effeithiol i'w cefnogi. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cyfleusterau'n addas i bob plentyn, gan gynnwys llwybrau mynediad a chyfarpar synhwyraidd.

Er mwyn gwerthuso cynllun datblygu Ysgol A, mae camau gweithredu allweddol wedi'u sefydlu. Mae Parc Cenedlaethol wedi ymrwymo i ymweld â'r ysgol i gynnig cyfres o ddysgu proffesiynol i wneud y mwyaf o botensial addysgiadol yr ardal allanol. Yn ogystal, mae cynlluniau dysgu'n dangos cyfleoedd wythnosol o ddefnydd pwrpasol o'r ardal allanol, gan sicrhau bod yr adnodd hwn yn cael ei integreiddio'n llawn i'r cwricwlwm. Bydd Ysgol A yn cynnal ymchwili gweithredol i werthuso effaith

dysgu yn yr awyr agored ar agweddau a safonau dysgwyr mwyaf bregus. Trwy ddefnyddio adborth arolygon, dadansoddi perfformiad academiaidd ac ystyried anghenion unigol y dysgwyr, gall Ysgol A greu amgylchedd dysgu sy'n ysgogi pob plentyn i lwyddo.

Wrth ddefnyddio camau gweithredu yma mae Ysgol A yn defnyddio dull pwrpasol o addysgeg yn yr awyr agored, gan alluogi staff hyderus ddefnyddio'r ardal allanol i'w lawn botensial er mwyn atgyfnerthu, cefnogi a sbarduno dysgu bywiog a phwrpasol. Mae gwersi rheolaidd yn digwydd yn y natur ar draws y continwwm dysgu, ac yn unol â thystiolaeth ymchwil, mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gymhelliant a chanlyniadau dysgwyr (Waite, 2011). O ganlyniad i'r dull hwn, mae disgwyl gweld trawsnewidiad sylweddol ym meddylfryd dysgwyr, gan eu hysbrydoli i ddysgu drwy brofiadau cynhwysol ac ysgogol, a datblygu agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu a bywyd yn gyffredinol.

### **Adfyfyrio a Gwerthuso**

Wrth adfyfyrio ar y targed o ddefnyddio'r ardal allanol i'w lawn botensial yn y dysgu, rwy'n teimlo fy mod wedi llwyddo i integreiddio'r dull hwn yn fy narlithoedd mewn modd effeithiol. Yn arbennig, roedd gwersi mathemateg yn cael effaith enfawr ar ddefnydd yr ardal allanol, gan ganiatáu i ddysgwyr archwilio cysyniadau mathemategol trwy weithgareddau ymarferol a chyd-destunau bywyd go iawn. Defnyddiais adnoddau chwaraeon fel conau, rhaffau sgipio a sialc, sydd wedi bod yn allweddol wrth gyflwyno cysyniadau mathemategol mewn modd rhyngweithiol a gweledol, yn ogystal â chefnogi themâu ehangach y cwricwlwm. Gwelais sut y gallai'r dull hwn hybu dealltwriaeth ddyfnach a chynyddu cymhelliant wrth ymgysylltu â phynciau heriol.

Sylwais fod y dull hwn yn cyfrannu at well dealltwriaeth a chymhelliant uwch ymhlith dysgwyr wrth ymdrin â chysyniadau heriol. Serch hynny, roedd yn bwysig sicrhau bod gweithgareddau'n parhau i fod yn strwythuredig ac yn gynhwysol i bawb. Er bod hyn yn peri heriau, mae ymchwil (Beames et al., 2012) yn dangos bod dysgu yn yr awyr agored yn cynyddu ymgysylltiad a chymhelliant, ac roedd fy mhrofiad yn adlewyrchu hyn. Mae'n amlwg bod cyfuno'r amgylchedd naturiol ag adnoddau rhyngweithiol yn cyfoethogi'r broses ddysgu, ond mae angen monitro'r dull yn

barhaus drwy adborth dysgwyr a gwella'r dull gweithredu er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl.

### **Casgliad**

I gloi, mae'r profiad hwn wedi amlygu gwerth dysgu yn yr awyr agored a'i effaith gadarnhaol ar gymhelliant ac ymgysylltiad dysgwyr. Drwy ddefnyddio'r ardal allanol yn effeithiol, yn enwedig mewn gwersi mathemateg, cefais gyfle i arsylwi a threialu sut mae dulliau rhyngweithiol yn gwella dealltwriaeth a phrofiad dysgu. Roedd defnyddio adnoddau megis conau, rhaffau sgipio a sialc yn allweddol wrth wneud dysgu'n fwy gweledol ac ystyrlon.

Yn broffesiynol, mae'r broses hon wedi fy ngalluogi i ddatblygu fy sgiliau cynllunio ac adfyfrio, gan sicrhau bod fy ymarfer yn cael ei lywio gan dystiolaeth a gwerthusiadau parhaus. Roedd yr aseiniad yn canolbwyntio ar sut y gall dysgu yn yr awyr agored hybu datblygiad ysgolion a chefnogi dulliau addysgu ar sail ymchwil. Mae'n amlwg bod gwneud penderfyniadau gwybodus, ar sail tystiolaeth ac adborth, yn hanfodol i sicrhau gwelliant parhaus yn ansawdd addysgu a dysgu.

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd y profiad hwn yn dylanwadu ar fy ymarfer drwy annog mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu awyr agored a defnyddio dulliau creadigol. Bydd hefyd yn cefnogi fy safonau proffesiynol drwy fy ngalluogi i adfyfrio'n feirniadol, gwneud penderfyniadau effeithiol a datblygu strategaethau addysgu sy'n gynhwysol.

**Cyfeiriadau**

*Beames, S., Higgins, P. and Nicol, R. (2012) Learning outside the classroom: Theory and guidelines for practice. London: Routledge.*

*British Educational Research Association (2024) Revised Ethical Guidelines for Educational Research. Southwell: Bera.*

*Dyment, J.E. and Bell, A.C. (2008) 'Grounds for movement: Green school grounds as sites for promoting physical activity', Health Education Research, 23(6), pp. 952–962.*

*Estyn. (2021). Outdoor Learning: An evaluation of the impact on learner progress and well-being. Estyn.*

*Fiennes, C., Oliver, E., Dickson, K., Escobar, D., Romans, A., and Oliver, S. (2022) 'How to Raise the Standards of Outdoor Learning and Its Research.*

*Fullan, M. (2016). The new meaning of educational change (5ed.). Teachers College Press.*

*Hopkins, D. (2001). School Improvement for Real. Routledge.*

*Llywodraeth Cymru. (2020). Fframwaith Gwella Ysgolion: Canllawiau ar gyfer ysgolion a chonsortia rhanbarthol. Llywodraeth Cymru.*

*Llywodraeth Cymru. (2022). Cwricwlwm i Gymru: Canllawiau statudol ar gyfer ysgolion a lleoliadau addysg. Llywodraeth Cymru.*

*Mannion, G. and Lynch, J. (2016) 'The primacy of place in education in outdoor settings', in Humberstone, B., Prince, H. and Henderson, K.A. (eds.) Routledge International Handbook of Outdoor Studies. London: Routledge, pp. 85–94.*

*Passy, R. et al. (2019) 'Integrating outdoor learning into the curriculum: an exploration in four nations,' Curriculum Perspectives, 39(1), pp. 73–78.*

*Knight, S. (2013) Forest School and outdoor learning in the early years. 2nd edn. London: SAGE Publications.*

*Rickinson, M., Dillon, J., Teamey, K., Morris, M., Choi, M. Y., Sanders, D. and Benefield, P. (2004) A review of research on outdoor learning.*

*Waite, S., Passy, R., Gilchrist, M., Hunt, A., and Blackwell, I. (2016) Natural Connections Demonstration Project, 2012–2016: Final Report. York: Natural England.*

*Waite, S. (2017). Children Learning Outside the Classroom: From Birth to Eleven. SAGE.*

*Waite, S. (2010) 'Teaching and learning outside the classroom: personal values, alternative pedagogies and standards,' Education 3-13, 39(1), pp. 65–82.*

*William, D. (2011). Embedded Formative Assessment. Solution Tree Press.*